**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd
Cadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

13 Mai 2019

Annwyl Arglwydd Thomas,

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 1 Chwefror gyda Nigel Brown, Prif Weithredwr CAFCASS Cymru, rwy'n ysgrifennu gyda'r wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani. Lle bo'n briodol, mae dolenni cyswllt i ffynonellau gwybodaeth wedi'u darparu yn y llythyr a'r atodiadau.

**Data ar blant sy'n cael eu rhoi mewn gofal**

Yn Atodiad 1, mae taenlen excel sy'n cynnwys dadansoddiad o ddata Cymru a gyhoeddwyd yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal o 2015-2018. Mae'n rhoi dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol a throsolwg Cymru gyfan o nifer y plant, y math o leoliad ac ym mhle mae'r lleoliad, er enghraifft. Mae dolenni cyswllt isod hefyd i'r set ddata lawn ar gyfer Cymru ar gyfer 2014 i 2018 os ydych yn dymuno ymchwilio ymhellach:

- Plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal: https://statscymru.llyw.cymru/v/FXMP

- Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol ac oedran: https://statscymru.llyw.cymru/v/FXMS

- Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol: https://statscymru.llyw.cymru/v/FXMV

- Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth am bob 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn: https://statscymru.llyw.cymru/v/FXMX

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â darparu cymorth a chyngor cyfreithiol i deuluoedd sy'n rhan o achosion cyfraith gyhoeddus, ac efallai yr hoffech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ynglŷn â'r mater hwn.

Darperir data cenedlaethol cymharol ar gyfer Lloegr yn y ddolen amgaeedig, ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 –
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/756192/Children_looked_after_in_England_2018_National_tables.xlsx

Dylech nodi y gall fod peth amrywiad yn y modd y bydd Cymru a Lloegr yn cipio data yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.

**Costau cynnal blynyddol CAFCASS Cymru**

Cyllideb CAFCASS Cymru ar gyfer 19/20 yw £11,307,000. Costau staff yw tua 92% o gyllideb CAFCASS Cymru.

**Atal ac ymyrryd yn fuan i leihau'r angen i gysylltu â'r llysoedd teulu/i blant gael eu cymryd i ofal**

Cyfraith breifat
Ar unrhyw adeg, bydd tua 10% o deuluoedd sydd wedi gwahanu yn mynd i'r llys. Mae dadansoddiad o ddata presennol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan CAFCASS Lloegr yn awgrymu y gall y ffigwr fod yn nes at 38%. Y rhagdybiaeth yw y byddai'r gymhareb yn debyg ar gyfer Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r cyfarwyddyd ymarfer sy'n amlinellu sut y dylid rheoli a phrosesu achosion cyfraith preifat drwy'r llysoedd, y Rhaglen Trefniadau Plant, yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gael Cyfarfod Asesu Gwybodaeth Gyfryngu (MIAM) (nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i ymatebwyr). Mae eithriadau o ran materion yn ymwneud â diogelu a cham-drin domestig. Mae'r nifer sy'n derbyn MIAM a chyfryngu wedi bod yn isel yn gyffredinol ers cyflwyno'r Rhaglen Trefniadau Plant ym mis Ebrill 2014.

Mae dadansoddiad o'r data yn awgrymu bod tua 30% o achosion yn cael eu datrys yn y gwrandawiadau cyntaf mewn achosion cyfraith preifat, yn bennaf drwy ddull gweithredu datrys anghydfod ymarferwyr CAFCASS Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran helaeth o achosion lle mae'n realistig credu y gellir eu datrys y tu allan i'r llys, er hynny, cydnabyddir ar hyn o bryd bod nifer fawr o achosion sydd 'eisiau eu diwrnod yn y llys' dim ots pa mor syml yw'r problemau.

Cyfraith Gyhoeddus
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi plant agored i niwed a'u teuluoedd i gadw'r plant gyda'r teulu ac atal gorfod derbyn y plant i ofal a chysylltu â'r llysoedd teulu. Darperir cymorth ar bob lefel o anghenion yng Nghymru, o ddarpariaeth gyffredinol i ymyrraeth wedi'i thargedu a chymorth arbenigol.



Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth cynnar i deuluoedd agored i niwed gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Mae'r rhaglen yn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth amlasiantaeth pan fyddant ei angen, ac yn defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i gefnogi grymuso, cadernid a hunanddibyniaeth.

Mae Dechrau'n Deg yn ategu Teuluoedd yn Gyntaf ac yn darparu cymorth blynyddoedd cynnar wedi'i dargedu i wella cyfleoedd bywyd plant hyd at bedair oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae chwarter y plant dan bedair oed yng Nghymru wedi manteisio o'r rhaglen hyd yma.

Darparwyd £5m ychwanegol o fuddsoddiad rheolaidd yn 2017/18 i awdurdodau lleol sefydlu neu wella gwasanaethau presennol ar ffiniau gofal i helpu i atal y niferoedd cynyddol o blant sy'n mynd i'r system ofal. Mae gwasanaethau wedi'u sefydlu gan bob un o'r 22 awdurdod lleol bellach, gan gefnogi dros 3,600 o blant i aros yn yr uned deuluol yn 2017/18 yn unig.

Mae £15m ychwanegol wedi'i neilltuo drwy'r Gronfa Gofal Integredig i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o 2019/20 i helpu i adeiladu ar y cymorth ataliol cynnar effeithiol i deuluoedd sy'n helpu i osgoi sefyllfaoedd o argyfwng. Defnyddir cyllid i gefnogi cynadleddau grŵp i deuluoedd, ailuno teuluoedd, cymorth therapiwtig ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal a'u teuluoedd, a dewisiadau eraill ar wahân i lety diogel.

Mae'r Prif Weinidog wedi nodi blaenoriaethau clir i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys datblygu targedau pwrpasol gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal. Rhagwelir y bydd cynlluniau i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn rai dros dair blynedd gyda disgwyliadau i'w cyflawni ar ôl 12 mis, 24 mis a 36 mis. I gyfrannu at y gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymweld â phob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod mis Ebrill a mis Mai i drafod y gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd agored i niwed a'u perthynas â'r llysoedd teulu. Mae sgyrsiau hyd yma wedi tynnu sylw at y gwaith a wneir gan awdurdodau lleol i adolygu arferion, perfformiad a rheoli trothwyon yn barhaus, a safon a chysondeb y penderfyniadau a wneir mewn timau gan gynnwys craffu ar achosion yn drylwyr cyn mynd i'r llys.

**Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru**

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim ar ystod eang o ddewisiadau gofal plant a gweithgareddau i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am feithrinfeydd, gwarchodwyr plant, clybiau y tu allan i'r ysgol, grwpiau chwarae a grwpiau rhieni a phlant bach. Maent hefyd yn rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â thalu am ofal plant a gweithio yn y maes gofal plant.

Darperir Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am ddim ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Gellir cael gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau drwy https://www.dewis.cymru/



Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant**

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn cael ei gadeirio gan David Melding AC ac yn adrodd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan y Grŵp aelodaeth eang sy'n cynnwys yr holl uwch randdeiliaid sydd ynghlwm â rheoli plant sydd wedi derbyn gofal yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu yn dair ffrwd waith, gyda Phennaeth Gwasanaethau Plant neu gynrychiolydd o'r 3ydd Sector yn gadeirydd ac is-gadeirydd.

1. Lleihau nifer y plant sydd angen gofal mewn modd diogel.
2. Sicrhau bod digon o ddewisiadau lleoli o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal.
3. Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i gael y profiadau gorau posibl mewn gofal ac wrth iddynt ddatblygu'n oedolion.

Mae gweithgareddau'r rhaglen yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth i'w cyflawni a fydd yn galluogi gweithredu'n effeithiol a gwell canlyniadau i blant sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r rhaglen yn weithredol drwy gydol tymor y Cynulliad hwn (hyd at fis Mai 2021). Mae hyn yn cynnwys gwella gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar gyda theuluoedd i leihau'r angen am ofal, defnydd effeithiol ac effeithlon o gronfeydd a gwell argaeledd lleoliadau (mewn gofal maeth, gofal preswyl, llety diogel ac i unigolion sy'n gadael gofal).

Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiectau penodol mewn ystod eang o feysydd. Maent yn cynnwys:

1. Cefnogi dulliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o leihau'r angen am ofal.
2. Cryfhau trefniadau ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau a threfniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.
3. Gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu cymryd oddi ar rieni ag anableddau dysgu.
4. Canfod dulliau sy'n helpu i osgoi'r defnydd o achosion llys.
5. Gwella digonolrwydd, dewis ac ansawdd y lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.
6. Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
7. Datblygu gallu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ymhellach.
8. Gwella dewisiadau a chanlyniadau lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal preswyl.
9. Gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal
10. Sicrhau bod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol yn cael eu cydnabod ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.
11. Sicrhau bod gwasanaethau therapiwtig ar gael i blant sydd wedi bod mewn gofal.
12. Archwilio'r ystod opsiynau llety sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal.

Ceir copi o'r rhaglen yn atodiad 2. Gan ei bod yn rhaglen o weithgareddau sy'n datblygu, nid ydym yn cyhoeddi'r rhaglen yn ffurfiol, ond gellir darparu crynodeb o'r rhaglen os mai dyna yw eich dymuniad.



Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Cynigion i ddatblygu system cyfiawnder teuluol wedi'i datganoli yng Nghymru**

Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth hyd yma i'r Comisiwn, mae'r setliad datganoli cyfredol yn rhoi ffin artiffisial rhwng y pwerau datganoledig sydd gan Lywodraeth Cymru dros wasanaethau plant a gwasanaethau cymdeithasol a'r pwerau nad ydynt wedi'u datganoli sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder dros weithgareddau cyfiawnder teuluol. Nid yw'r setliad cyfredol a natur gydberthnasol y ddwy system wrth gefnogi plant a Theuluoedd yng Nghymru yn galluogi Llywodraeth Cymru i wireddu ei huchelgais polisi yn llawn i blant a theuluoedd yng Nghymru, gwneud penderfyniadau a bod yn gwbl atebol i'w dinasyddion. Bydd gwybodaeth ar gostau cynnal y system gyfiawnder gyfredol yng Nghymru ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Er bod egwyddorion datganoli pellach yn hysbys, byddai sefydlu system cyfiawnder teuluol wedi'i datganoli yng Nghymru yn golygu ymgynghori yn llawn a chynhwysfawr gyda'r holl randdeiliaid yng Nghymru, y cyhoedd a'n partneriaid allweddol yn Lloegr. Ni ellir gwahanu cyfiawnder teuluol oddi wrth y system gyfiawnder ehangach yng Nghymru, ac yn dilyn ystyriaethau'r Comisiwn ar y ffiniau datganoli ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru, byddem yn hapus i weithio gyda'r Comisiwn ac eraill i helpu i lunio cynigion ar gyfer system gyfiawnder ddatganoledig yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth ychwanegol yn y llythyr hwn wedi bod yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**ALBERT HEANEY**
**CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC INTEGREIDDIO**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales